Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG45470**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau Drafft - Darpariaeth Camddefnyddio Sylweddau Integredig ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

Gorffennaf 2024

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-83577-141-9

## Trosolwg

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar ddrafft Llywodraeth Cymru o Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau (y Fframwaith) ar gyfer darpariaeth integredig camddefnyddio sylweddau i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

## Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Polisi Camddefnyddio Sylweddau
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

E-bost: substance.misuse@gov.wales

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: Datblygu fframwaith triniaeth camddefnyddio sylweddau ar gyfer plant a phobl ifanc | LLYW. CYMRU

**Adroddiad Cryno o'r Ymgynghoriad ar y Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau drafft (y Fframwaith) - Darpariaeth camddefnyddio sylweddau integredig ar gyfer Plant a Phobl Ifanc**

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ............ 1
2. Cyd-destun ............ 1
3. Strwythur y Fframwaith ............ 1
4. Ymgysylltu Cyn Ymgynghori ............ 2
5. Ymgynghoriad ............ 3
6. Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad ............ 4
7. Canfyddiadau Allweddol ............ 5
8. Y Camau Nesaf ............ 12

## 1. Cyflwyniad

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar ddrafft y 'Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau - Darpariaeth Integredig Camddefnyddio Sylweddau i Blant a Phobl Ifanc ' (y "fframwaith"). Cynlluniwyd y fframwaith i hysbysu a chynorthwyo cynllunwyr a darparwyr iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol i ddylunio a darparu gwasanaethau atal a thrin cynaliadwy a theg o ansawdd uchel i'r rhai sydd mewn perygl o broblemau camddefnyddio sylweddau neu sy'n cael profiad ohonynt.

## 2. Cyd-destun

Fel rhan o agenda'r polisi camddefnyddio sylweddau, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi polisïau a dogfennau cyfarwyddyd fel mater o drefn, gan ledaenu'r wybodaeth hon trwy dudalennau Camddefnyddio Sylweddau gwefan a rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru. Defnyddir fframweithiau triniaeth camddefnyddio sylweddau i roi arweiniad a bod yn ddeunyddiau cyfeirio i leihau'r niwed a achosir drwy gamddefnyddio sylweddau.

Mae'r gynulleidfa arfaethedig ar gyfer y fframwaith yn cynnwys cynllunwyr gwasanaeth, comisiynwyr, darparwyr camddefnyddio sylweddau a darparwyr iechyd, cyfiawnder troseddol a gofal cymdeithasol ehangach sy'n gweithio gyda'r rhai sydd mewn perygl o gychwyn, neu brofiad o ddefnydd cyffuriau a/neu alcohol problemus hanesyddol neu gyfredol. Wrth weithredu'r Fframwaith hwn, disgwylir felly y bydd plant a phobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn cymryd rhan.

Mae'r Fframwaith yn rhoi trosolwg o'r sefyllfa bresennol yng Nghymru a'r DU ehangach ac yn amlinellu'r dystiolaeth i lywio gwelliannau. Darperir dolenni i ddogfennau strategaeth a pholisi perthnasol ynghyd â chrynodeb o'r dystiolaeth sy'n ymwneud â datblygiad gofynnol gwasanaethau sydd â'r nod o wella iechyd a lles plant a phobl ifanc.

## 3. Strwythur y Fframwaith

Mae'r fframwaith wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Crynodeb a datblygiadau allweddol.
- Cefndir.
- Llwybr ar gyfer darparu gwasanaeth integredig ar gyfer camddefnyddio sylweddau.
- Hyfforddiant a datblygiad y gweithlu.

## 4. Ymgysylltu Cyn Ymgynghori

I oruchwylio datblygiad y Fframwaith comisiynodd Llywodraeth Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) i ddatblygu'r fframwaith hwn a sefydlwyd grŵp llywio yn 2018. Mae'r dystiolaeth yn y fframwaith hwn hefyd yn deillio o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys cronfeydd data llyfryddiaethol, ffynonellau gwefan, gohebiaeth bersonol gydag academyddion blaenllaw, digwyddiadau casglu tystiolaeth a rhanddeiliaid a chyfweliadau â hysbyswyr allweddol.

Yn dilyn y drafft cyntaf, gwahoddwyd grwpiau rhanddeiliaid cenedlaethol i fynychu dau ddiwrnod ymgysylltu i gytuno ar welliannau ac argymhellion terfynol i'r Fframwaith yn y drafft terfynol.

Bu ICC, gyda chefnogaeth gweithwyr proffesiynol eraill, yn cyfrannu at wahanol benodau o'r fframwaith. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Pennaeth y Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau, ICC.
- Rheolwr Prosiect – Camddefnyddio Sylweddau a lleihau niwed, ICC.
- Rheolwr Prosiect – Tueddiadau mewn Camddefnyddio Sylweddau, ICC.
- Ymarferydd Camddefnyddio Sylweddau Diagnosis Deuol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Arbenigol Plant a’r Glasoed, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaeth Iechyd Meddwl Arbenigol Plant a’r Glasoed, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.
- Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaeth Troseddau ac Atal Ieuenctid Sir Benfro.
- Tîm Cyffuriau ac Alcohol Pobl Ifanc SORTED Sir y Fflint, Cyngor Sir y Fflint.
- Kinbee Ltd
- Gweithiwr Ieuenctid, Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd.
- Ymarferydd Hyrwyddo Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Arweinydd Tîm Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc y Trydydd Sector.
- Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaeth Lles Emosiynol Pobl Ifanc.
- Arweinydd Gogledd Cymru, Hwb Cymorth ACE Cymru
- Seiciatrydd Caethiwed Ymgynghorol, Ymddiriedolaeth Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
- Rheolwr Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc y Trydydd Sector
- Comisiynydd Camddefnyddio Sylweddau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro.

### Dull Trawslywodraethol

Ceir ffocws ar wreiddio camddefnyddio sylweddau ar draws ystod o raglenni a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, bydd cydweithio agos yn parhau ag Iechyd Meddwl, Addysg, Plant a Theuluoedd, Cyflogadwyedd, Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol, Trechu Tlodi a Throsedd a Chyfiawnder i gryfhau cysylltiadau â'r meysydd hyn.

Mae'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22 yn cefnogi thema allweddol 'Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol' sef gwella iechyd a lles yng Nghymru, ar gyfer unigolion, teuluoedd a chymunedau, gan ein helpu i gyflawni ein huchelgais o ffyniant i bawb, trwy gymryd camau sylweddol i newid ein dull gweithredu o driniaeth i atal.

Yn ogystal, mae'r weledigaeth a'r egwyddorion a nodir yn 'Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol' yn berthnasol i'r fframwaith hwn.

Mae'r Fframwaith hefyd yn cyfeirio at fframweithiau NEST/NYTH a Dull Ysgol Gyfan, y mae'r ddau ohonynt yn darparu'r offer i symud tuag at Ddull System Gyfan gwirioneddol, gan ehangu'r cynnig cymorth ledled Cymru, er mwyn sicrhau newid trawsnewidiol i wasanaethau.


## 5. Ymgynghoriad

Ar 30 Medi 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddrafft o Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau - Darpariaeth Camddefnyddio Sylweddau Integredig i Blant a Phobl Ifanc ar gyfer ymgynghoriad. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am gyfnod o 12 wythnos a daeth i ben ar 23 Rhagfyr 2022. Mae testun llawn yr ymgynghoriad ar gael yn:

[Datblygu fframwaith triniaeth camddefnyddio sylweddau ar gyfer plant a phobl ifanc | LLYW. CYMRU]

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd drwy'r ymgynghoriad ar-lein.

- Cafwyd cyfanswm o 30 ymateb i'r ymgynghoriad.
- Dewiswyd 10 o'r ymatebwyr aros yn ddienw.
- Mae Ffigur 1 isod yn rhoi crynodeb o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad.




## 6. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Cynhaliwyd dadansoddiad thematig o'r 30 ymateb. Mae crynodeb o'r materion a'r pwyntiau a godwyd gan randdeiliaid wedi'u nodi isod. Nid yw pob ymatebydd wedi ateb pob cwestiwn. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys pedwar cwestiwn allweddol:

**C1** Mae'r Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau drafft hwn wedi'i gynllunio i lywio a chynorthwyo cynllunwyr a darparwyr iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol i ddylunio a darparu gwasanaethau atal a thrin cynaliadwy a theg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc, yn benodol ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o broblemau camddefnyddio sylweddau neu'n cael profiad ohonynt. A fyddech chi'n cytuno bod y Fframwaith drafft yn gwneud hyn?

**C2** A ydych yn cytuno bod yr argymhellion, fel y'u cynigir yn Adran 1, yn addas i'r diben ac yn gyraeddadwy?


**C3** A ydych chi'n gweld unrhyw heriau cyflenwi gwasanaethau wrth gyflawni unrhyw un o'r argymhellion?

**C4** Yn eich barn chi, a yw'r Fframwaith a gynigir yn cysylltu'n dda â meysydd polisi a gwasanaeth perthnasol eraill?

Yn ogystal â chael yr atebion uchod, roedd hefyd yn hanfodol dod i ddirnad yr atebion a roddwyd yn well eto. Felly, dilynwyd pob cwestiwn ag is-gwestiwn yn gofyn i unigolion egluro eu hateb yn fanylach. Roedd hyn yn fodd o ystyried sylwadau penodol yn y fframwaith terfynol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r adroddiad cryno hwn.

## 7. Canfyddiadau Allweddol

**Cwestiwn 1 - Mae'r Fframwaith drafft hwn wedi'i gynllunio i lywio a chynorthwyo cynllunwyr a darparwyr iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol i ddylunio a darparu gwasanaethau atal a thriniaeth cynaliadwy a theg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc, yn benodol ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o broblemau camddefnyddio sylweddau neu'n cael profiad ohonynt. A fyddech chi'n cytuno bod y Fframwaith drafft yn gwneud hyn?** Mae'r siart isod yn nodi nifer yr ymatebion a oedd yn cytuno â Chwestiwn 1.




Roedd y prif themâu a ddaeth i'r amlwg mewn perthynas â **chefnogi'n well y rhai sydd ag anghenion camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd** a **mwy o ffocws ar leihau niwed a gwaith ataliol**. Soniwyd yn benodol am rai sylweddau megis meddyginiaeth ragnodedig, ocsid nitraidd a sylweddau seicoweithredol newydd.


| |
|---|
| Diffyg cysylltiad rhwng gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl. **Yr Heddlu**<br><br>Byddai cysondeb rhwng gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau cyffuriau ac alcohol hefyd yn fuddiol i gefnogi'r rhai ag anghenion cymorth sy'n cyd-ddigwydd o ran terfyn oedran uchaf (25 oed). **BCA**<br><br>Nid yw'r adroddiad yn sôn am y defnydd cyhoeddus o gyffuriau a lleihau niwed ynghylch 'defodau cyhoeddus defnyddio cyffuriau' a'r diffyg ymwybyddiaeth a geir |

ymhlith pobl ifanc sy'n defnyddio cyffuriau chwistrellu. **Sefydliad y Trydydd Sector**

Byddai'n fanteisiol gweld cyfeiriad cryfach at waith atal, gan gymryd agwedd gyfannol at y materion. Deall beth sy'n sbarduno'r ymddygiadau ac yna targedu ymyriadau penodol. Mae cynnwys pobl ifanc eu hunain i ddatgloi'r hyn sy'n helpu i atal yn hanfodol, a bydd yn gwahaniaethu yn ôl grŵp oedran. **Yr Heddlu**

Ar draws ein gwasanaethau i bobl ifanc rydym wedi gweld cynnydd sydyn yn y defnydd o ocsid nitraidd (NOS) heb fawr o wybodaeth gyfredol am leihau niwed ynghylch ei effeithiau (seicolegol a chorfforol). Nid yw'r adroddiad ychwaith yn rhoi digon o ffocws i gyffuriau llyncadwy ac ysmygu fel MDMA, canabis ac anterthau cyfreithiol, sy'n gyffredin ymhlith pobl ifanc. **Sefydliad y Trydydd Sector**

**Cwestiwn 2 - A ydych yn cytuno bod yr argymhellion, fel y'u cynigir yn Adran 1, yn addas i'r diben ac yn gyraeddadwy?** Mae'r siart isod yn nodi nifer yr ymatebion a oedd yn cytuno â Chwestiwn 2.




Roedd y prif themâu mewn perthynas â **defnyddio cronfa ddata ac asesiad unedig**. Roedd cefnogaeth i'r ddau, ond fe gafwyd cwestiynau ynghylch eu heffeithiolrwydd a sut y byddant yn gweithio'n ymarferol.

Mae ymarferwyr yn dweud yn eang bod WCCIS (System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru) fel system yn araf a'i bod yn destun amser tarfu wythnosol, os nad dyddiol. Mae angen i'r system hon fod yn rhydd o darfu o'r fath os bwriedir ei defnyddio fel system Cymru gyfan. **Bwrdd Iechyd**


Efallai na fydd WCCIS yn hygyrch i bawb a byddai'n anodd gweithredu offeryn asesu unedig gan y gallai fod meini prawf gwahanol gan bob rhanbarth / ardal. Sut bydd asesiad unedig yn cael ei greu? **BCA**

O ystyried yr anhawster wrth greu system sy'n uno cofnodion cleifion ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd, mae offeryn y gellid ei ddefnyddio gan bob person ifanc sy'n gweithio gyda sawl proffesiynol fel petai'n afrealistig. Mae'r Coleg yn pryderu y byddai unrhyw system o'r fath yn eithrio cofnodion meddygon teulu, a fyddai'n creu rhwystr pellach i feddyg teulu ddarparu gofal i bobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed ac sydd mewn perygl o gamddefnyddio neu gam-drin sylweddau. **Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol**

Rydym yn pryderu am effaith bosibl gweithredu un offeryn asesu electronig. Mae pryderon ynghylch gallu gwasanaeth/ymarferydd i holi system fel hon i gasglu gwybodaeth ddigonol ynghylch achos, ac y gallai hyn greu system statig nad yw'n gallu addasu ac ymateb i achosion unigol a'u hanghenion. **Sefydliad y Trydydd Sector**

Gweithredu asesiad unedig a modiwlaidd electronig – teimlwn y gall gweithio amlasiantaethol da atal y materion hyn, pan fo asesiadau'n cael eu rhannu rhwng gwasanaethau fel nad oes rhaid i berson ifanc ailadrodd ei hun pan fydd yn cwrdd â gweithwyr proffesiynol newydd. Yn ogystal, efallai y bydd problemau am fod offer asesu 'modiwlaidd' yn rhy rhagnodol - er enghraifft mewn asesiadau CAMHS (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed), mae nifer o "flychau" i'w llenwi na fydd efallai'n berthnasol i bob corff proffesiynol - yn ogystal gall gweithwyr proffesiynol gwahanol lenwi'r ffurflen yn wahanol iawn. **BCA**

**Cwestiwn 3 - A ydych chi'n gweld unrhyw heriau cyflenwi gwasanaethau wrth gyflawni unrhyw un o'r argymhellion?** Mae'r siart isod yn nodi nifer yr ymatebion a oedd yn cytuno â Chwestiwn 3.





Roedd y prif themâu mewn perthynas â **chyfyngiadau adnoddau** a'r **angen i hyfforddi staff**.

| |
|---|
| Er mwyn estyn yr holl wasanaethau i gefnogi hyd at 25 oed, mae angen ymrwymo adnoddau ychwanegol, ac o bosibl hyfforddiant ychwanegol i ddarparwyr gwasanaethau presennol a newidiadau posibl i'r ddarpariaeth. Mae'n hanfodol bod y rhain yn cael eu hystyried er mwyn sicrhau nad oes effaith negyddol ar bawb sy'n defnyddio gwasanaethau. **BCA**<br><br>Fel rhan o'r dull o ailedrych ar y Fframwaith, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn ymdrechion newydd i sicrhau bod gofal cymdeithasol plant - a thriniaeth camddefnyddio sylweddau yn benodol - yn cael ei ystyried yn gyfle gyrfa deniadol sy'n talu'n dda, yn cael ei barchu a'i gefnogi. Dylai hyn gynnwys cefnogaeth ar gyfer hyfforddiant ac addysg, ac ymgyrch sy'n canolbwyntio ar gyfraniad enfawr y sector gofal cymdeithasol at fywydau plant a phobl ifanc. **Sefydliad y Trydydd Sector**<br><br>Yr angen am gynyddu nifer y gweithwyr proffesiynol cymwys e.e. fferyllwyr (gan gynnwys fferyllwyr Presgripsiynu Annibynnol), a darparu hyfforddiant uwch i wella sgiliau aelodau eu tîm e.e. gweithwyr allweddol. **Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol**<br><br>Nid oes unrhyw gymhwyster neu achrediad proffesiynol presennol ar gyfer staff sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa mewn triniaeth camddefnyddio sylweddau. Gall hyn arwain at anawsterau wrth recriwtio a chadw staff sy'n cael eu denu at |

yrfa sy'n cynnig lefel gydnabyddedig o ddatblygiad proffesiynol. **Sefydliad y Trydydd Sector**

**Cwestiwn 4 - Yn eich barn chi, a yw'r Fframwaith a gynigir yn cysylltu'n dda â meysydd polisi a gwasanaeth perthnasol eraill?** Mae'r siart isod yn nodi nifer yr ymatebion a oedd yn cytuno â Chwestiwn 4.




Roedd y prif themâu yn ymwneud â'r gofyniad am **gysylltu rhwng camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl** yn ogystal â sylwadau cyffredinol am **gyfrifoldeb ac atebolrwydd argymhellion y fframwaith**.

Yr adborth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau defnyddio sylweddau yw bod cael at wasanaethau Iechyd Meddwl yn gallu bod yn anodd, ac yn aml nad yw cymorth iechyd meddwl ar gael nes bod unigolion wedi mynd i'r afael â'u defnydd o sylweddau. **BCA**

... Nid yw'n glir sut y bydd yr argymhellion yn cael eu gweithredu a beth fydd y trefniadau llywodraethu. **Yr Heddlu**

O fewn rolau a chyfrifoldebau, roeddwn i'n meddwl tybed a fyddai unrhyw werth dweud mai'r awdurdodau cyfrifol sy'n rhan o'r BCAau sy'n gyfrifol am gyflenwi'r Fframwaith, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau'r trydydd sector ac mewn partneriaeth â nhw? Gall hyn helpu i ddarparu llinell atebolrwydd gliriach, yn enwedig o ystyried bod Byrddau Iechyd, Cyfiawnder Troseddol ac Awdurdodau Lleol wedi'u cynnwys yn yr awdurdodau cyfrifol sy'n ffurfio'r BCA. Yna gellid dweud mai'r BCA y gellid ei ddwyn i gyfrif pe na bai rhai o'r agweddau

ar y Fframwaith yn cael eu cyflenwi, y gellid disgwyl yn rhesymol i BCAau sicrhau eu bod yn cael eu cyflenwi. **Unigolyn**

**Cwestiwn 5 – Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r Fframwaith drafft yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau a fyddai, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?**

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd cefnogaeth gref i ddefnyddio deunyddiau dwyieithog. Y consensws cyffredinol oedd y byddai deunyddiau a gwasanaethau dwyieithog yn cael effaith gadarnhaol, gan gynnwys annog y rhai sy'n siarad Cymraeg i gael triniaeth a darparu dewis iaith lle bo hynny'n berthnasol.

Credaf y dylai plant/pobl ifanc allu cael gafael ar y cymorth a'r driniaeth sydd eu hangen arnynt yn y Gymraeg gan y gallent deimlo'n fwy cyfforddus yn cael at yr wybodaeth yn yr iaith y cânt eu haddysgu ynddi, yn enwedig gan y gallai rhai gael trafferth gyda therminoleg benodol yn Saesneg. Gallai hyn hefyd helpu rhieni i drafod yr wybodaeth/triniaeth yn haws os mai Cymraeg yw iaith gyntaf cartref y teulu. Yr effaith gadarnhaol fyddai y byddai gan blant ddewis darllen a deall y driniaeth/cymorth ym mha bynnag iaith y dewison nhw sy'n arwain at ganlyniadau gwell. **Unigolyn**

Byddai hyn yn annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r gwasanaeth gan ddefnyddio'r Gymraeg a chefnogi plant a phobl ifanc (PPI) yn y grŵp hwn i ddefnyddio’r Fframwaith drwy ddilysu eu dewis iaith. **Bwrdd Iechyd**

Pryderir bod prinder siaradwyr Cymraeg ar gael, os oes rhai ar gael o gwbl, pan fydd rhywun yn cyflwyno ei hun mewn gwasanaeth. **Sefydliad y Trydydd Sector**

**Cwestiwn 6 – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid newid y Fframwaith a gynigir er mwyn:**

- cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a
- pheidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dylid cyhoeddi'r Fframwaith yn y ddwy iaith, gyda phobl yn cael dewis pa un i'w ddefnyddio. **Dienw**

Gellid cryfhau'r argymhellion i gynnwys hyrwyddo diwylliannol a dewis iaith (Cymraeg a Saesneg) wrth ddarparu a dylunio gwasanaethau. **Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru**

**Cwestiwn 7 - Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i roi gwybod amdanynt.**

Adleisiodd rhai o'r ymatebion sylwadau blaenorol a nodwyd uchod. Yn ogystal, cafwyd nifer o sylwadau ynghylch gwaith ataliol ac ymgysylltiad cynnar.

| |
|---|
| Mae angen cwtogi ar niwed ar-lein a hybu ymwybyddiaeth am gyffuriau sy'n cael eu gwerthu ar-lein. Mae atal camddefnyddio cyffuriau yn fwy cost-effeithiol ac yn fwy dymunol yn gymdeithasol na delio â chanlyniadau camddefnyddio (Adolygiad annibynnol y Fonesig Carol Black, https://www.gov.uk/government/publications/review-of-drugs-phase-two-report)<br>**Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol**<br><br>Mae ADHD Awtistiaeth hefyd yn ffactor i'w ystyried, gan fod llawer o oedolion yn cyflwyno’r materion hyn yn ddiweddarach yn eu bywydau mewn clinigau gwasanaeth camddefnyddio sylweddau a chanolfannau argyfwng. Mae iechyd meddwl sy'n seiliedig ar drawma yn bryder cynyddol lle mae pobl ifanc yn aml yn defnyddio sylweddau i gelu effeithiau'r pryder sylfaenol. Dibynnir ar feddygon teulu yn rhy drwm, a hefyd ar wasanaethau iechyd meddwl i blant. Mae angen iddo fod yn gymuned o weithwyr proffesiynol sy'n cydweithio ar ymagwedd system gyfan at fynediad hawdd. **Awdurdod lleol**<br><br>Mae pwyslais clir ar integreiddio gwasanaethau ac atgyfeirio pobl ifanc sydd ag anghenion arbenigol i wasanaethau priodol ac yn wir sôn am ddefnyddio llwybrau gofal integredig (ICP) i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael at wasanaethau camddefnyddio sylweddau priodol waeth beth fo'u tîm presennol. Fodd bynnag, mae angen mwy o waith i fynd i'r afael â'r bylchau comisiynu: mae plant a phobl ifanc sydd eisoes yn hysbys i wasanaethau ar gyfer afiechydon meddwl eraill mewn perygl o ddefnyddio sylweddau ac weithiau'n datblygu problemau defnyddio sylweddau. Mae'n bwysig naill ai cael gweithwyr proffesiynol camddefnyddio sylweddau arbenigol wedi'u hintegreiddio i wasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc neu ddatblygu darpariaeth gofal a rennir clir rhwng CAMHS a gwasanaethau pwrpasol i reoli pobl ifanc â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Rydym yn falch iawn bod y ddogfen yn argymell defnyddio llwybrau gofal integredig i fynd i'r afael â materion fel y rhain ac yn awgrymu un pwynt atgyfeirio. Fodd bynnag, mewn meysydd fel pontio a heriau parhaus o ran defnyddio sylweddau ymhlith plant sydd eisoes yn defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl, dylid cynnwys llwybrau sampl yn y ddogfen hon. **Sefydliad y Trydydd Sector** |

## 8. Y Camau Nesaf

O werthuso'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r fframwaith wedi'i ddiweddaru i gynnwys sylwadau ac argymhellion, lle bo'n briodol, a gafwyd gan bob un o'r 30 ymatebydd. Ychwanegwyd geiriad cryfach mewn perthynas â'r Gymraeg hefyd, er mwyn helpu i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Codwyd themâu allweddol mewn perthynas â chydlynu'n well rhwng gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, hyfforddiant, lleihau niwed a gwaith ataliol, offer asesu unedig ac atebolrwydd.  Bydd angen rhoi ystyriaeth bellach er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu yn y modd mwyaf priodol o fewn y dirwedd ariannol heriol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'i phartneriaid ar y ffordd orau o gyflawni hyn drwy ei strwythur llywodraethu presennol.